


Archwiliad Bywyd Gwyllt Gwych

Mae anifeiliaid angen tri pheth sylfaenol i oroesi, yn union fel pobl: rhywle diogel i fyw, bwyd i'w fwyta, a dŵr i'w yfed.

Yr enw ar y man lle mae anifail yn byw yw cynefin.

I archwilio hyn, edrychwch o gwmpas eich lleoliad a sylwch beth sydd eisoes yno ar gyfer bywyd gwyllt.



Yna, meddyliwch am yr hyn a allai fod ar goll?

Ar ôl eich ymchwiliad, trafodwch gyda'ch gilydd beth y gallech chi ei ychwanegu i wneud yr ardal yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt. Cadwch y syniadau'n syml ac yn ymarferol.

Y nod yw gwneud i'ch lleoliad deimlo'n groesawgar i fywyd gwyllt drwy ddarparu'r hyn maen nhw ei angen i fyw'n ddiogel ac yn gyfforddus.



Pentwr
boncyffion



Pentwr
cerrig



Ardaloedd
gwyllt




Dŵr ar gyfer
bywyd gwyllt



Blodau neu
berlysiau



Gwesty
bwystfilod bach



Pwll



Blwch
ystlumod



Planhigion gydag
aeron



Tŷ adar



Tŷ draenogod



Bwydwyr adar

Allwch chi ddewis un peth y gallech chi ei wneud yn eich lleoliad ac ychwanegu eich syniad at y cynllun gweithredu isod?

Beth ydym ni am ei newid?	Sut fyddwn ni'n ei newid?	Pa wahaniaeth wnaethom ni ar ôl i ni wneud y newid?